

CASE STUDY:

Y Parc Technoleg Ynni Glân



CLEAN ENERGY
TECHNOLOGY PARK

Springfields

Trosolwg o'r project

Mae'r Deyrnas Unedig wedi gosod uchelgais feiddgar i gyflawni allyriadau carbon Net Sero erbyn 2050 ac i ateb yr her hon mae'n rhaid i ni newid yn sylweddol y ffordd rydym ni'n rheoli a defnyddio ynni. Mae ynni niwclear sy'n darparu tua 20% y capasiti yn y DU yn hanfodol o fewn y system. Mae niwclear yn cynnig pŵer lefel isaf cadarn gyda chadarnhad cyflenwad sicr ac mae'n rhan hanfodol o system ynni sefydlog, cost isel. Yn Westinghouse, bydd ein cynllun i greu'r Parc Technoleg Ynni Glân yn Springfields yn helpu i sicrhau bod pŵer niwclear yn aros yn rhan greiddiol o gymysgedd ynni'r DU. Mae Westinghouse yn gwahodd datblygwyr technoleg, darparwyr, arloeswyr, diwydiant a'r byd academiaidd i gydweithio i ddatblygu a dangos technolegau niwclear y dyfodol - yn arwain y ffordd tuag at system ynni carbon isel, gan unwaith eto roi'r Deyrnas Unedig ar flaen y gad ym maes technoleg niwclear.

Manylion y datrysiad/dull gweithredu

Bydd y Parc Technoleg Ynni Glân yn ganolbwynt sy'n darparu mynediad i bobl a chyfleusterau o'r radd flaenaf sy'n cynnig ystod lawn o wasanaethau cymorth i drawsnewid y ffordd rydym yn gweithio, cydweithredu a rhannu uchelgais. Gyda'n gilydd byddwn yn:

- Arddangos technolegau niwclear datblygedig
- Adeiladu canolfan ragoriaeth ar gyfer rheoli deunyddiau niwclear
- Datblygu tanwydd datblygedig gan ddefnyddio'r cyfleusterau gweithgynhyrchu gyda'r gorau yn y byd, eisoes ar safle Springfields. Y lle i fuddsoddi, arloesi a thyfu mewn niwclear yn y DU.

“Bydd y Parc Technoleg Ynni Glân yn gampws arloesi bywiog a fydd yn cynnal partneriaethau cydweithredol ar safle niwclear trwyddedig, gan gefnogi byd glanach a mwy cynaliadwy.

Bydd y Parc Technoleg Ynni Glân yn sicrhau safle Springfield yng nghalon y gymuned leol, gan ddarparu swyddi medrus ar gyfer y tymor hir. ”

Patrick Fragman
Prif Swyddog Gweithredol, Westinghouse.